Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

Equality of Opportunity Committee

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Chwefror 2010

Annwyl gyfaill

Mae Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i hygyrchedd gorsafoedd trenau yng Nghymru.

Nod yr ymchwiliad yw archwilio'r hyn y gallai Llywodraeth Cymru a sefydliadau allweddol eraill ei wneud i wella hygyrchedd gorsafoedd trenau yng Nghymru.

Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Er mwyn cynorthwyo ei ymchwiliad, mae'r Pwyllgor yn casglu tystiolaeth ar nifer o faterion a byddai'n ddiolchgar i chi am ymateb i'r pwyntiau canlynol sy'n berthnasol i chi:

1. A ydych wedi cael problemau yn ymwneud â rhai o'r pwyntiau a ganlyn?
    - Platfformau ac ardaloedd eraill o'r orsaf sy'n anhygyrch;
    - Cyfleusterau anhygyrch, fel toiledau neu wasanaethau gwybodaeth;
    - Problemau wrth symud rhwng y trên a'r platfform;
    - Gorsafoedd nad ydynt wedi'u staffio neu sydd â nifer cyfyngedig o staff.

(Byddai'n ddefnyddiol os gallech ddweud wrthym lle y cawsoch y problemau hyn.)

2. Pa gymorth sydd ar gael i helpu pobl i oresgyn anawsterau hygyrchedd?

3. A yw'r cymorth hwn wedi'i gyhoeddi/hysbysebu'n dda ac a ydyw ar gael yn rhwydd?

4. Pa newidiadau y gellir eu gwneud a fyddai'n gwella hygyrchedd gorsafoedd trenau i chi?

Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal / Equality of Opportunity Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8505
E-bost / E-mail : equality.comm@wales.gsi.gov.uk

5. A wyddoch am unrhyw orsafoedd sydd â hygyrchedd/cyfleusterau da?

6. A wyddoch am unrhyw orsafoedd lle mae gwaith wedi cael ei wneud yn ddiweddar i wella hygyrchedd?

7. A wyddoch am unrhyw orsafoedd lle mae safonau hygyrchedd wedi dirywio?

8. A oes unrhyw bwyntiau perthnasol eraill yr hoffech dynnu sylw atynt?

Nid oes angen i'r cyflwyniadau ystyried yr holl feysydd y cyfeirir atynt uchod ac mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth ysgrifenedig gan unigolion a sefydliadau. Byddwn hefyd yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr haf 2010, felly byddai'n ddefnyddiol os byddech yn nodi yn eich papur a fyddwch yn barod i roi tystiolaeth lafar, os cewch eich gwahodd i wneud hynny.

Yn gyffredinol, gofynnwn am dystiolaeth ysgrifenedig, gan ei bod yn arfer i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor ar ein gwefan fel ei bod yn dod yn rhan o'r cofnod cyhoeddus. Fodd bynnag, gallwch anfon tystiolaeth trwy gyfrwng sain neu fideo. Dylech anfon tystiolaeth at glerc y Pwyllgor erbyn **dydd Iau 1 Ebrill 2010:** equality.comm@wales.gsi.gov.uk neu i'r cyfeiriad uchod.

Datgelu Gwybodaeth

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Ann Jones AC
Cadeirydd